ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYNGOR GWYNEDD

AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG

Ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022

Cynnwys yr adroddiad

RHAGAIR

CRYNODEB

1. **Cefndir - dyletswydd y Safonau**
2. **Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau**
3. **Adlewyrchu ar y flwyddyn – 2021-22**
   - 3.1 Camau gweithredu i gryfhau cydymffurfiaeth
   - 3.2 Heriau wrth symud ymlaen
4. **ADRODDIAD DATA**
   - 4.1 Adrodd ar ofyn Safon 151: Niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg
   - 4.2 Adrodd ar ofyn Safon 152: Nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
   - 4.3 Adrodd ar ofyn Safon 154: Categoreiddio swyddi
   - 4.4 Adrodd ar ofyn Safon 170: Cwynion iaith

RHAGAIR

Gan y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd, gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg yn ystod 2021-22

"Rwyf yn hynod falch o'r gwaith sydd yn cael ei wneud o fewn y Cyngor i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn gallu defnyddio ein holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn cydnabod nad yw'r Cyngor yn gwneud pob dim yn berffaith, ac nad da lle gellir gwell, ond mae ymrwymiad y staff ar draws y Cyngor, a'u dealltwriaeth naturiol o'r angen i weithredu yn ddwyieithog ac i roi y Gymraeg gyntaf bob amser, yn bendant yn rhywbeth i'w ganmol.

Mae'r trefniadau hunanasesu sydd wedi eu sefydlu yn ystod y flwyddyn yn golygu y bydd posib adnabod ac ymateb i rwystrau i gydymffurfiaeth yn gynt, ac mae cynlluniau eisoes ar droed i wella rhai trefniadau lle mae bylchau wedi eu hadnabod.

Mae'r heriau oedd yn wynebu'r Cyngor yn sgil y pandemig yn dal i effeithio nifer o wasanaethau, ac mae sawl her yn dal i ddod wrth i bawb addasu i ddulliau gweithio newydd. Ond rwyf yn ffyddiog y bydd swyddogion yn parhau i sicrhau gwasanaethau Cymraeg drwyddi draw ac i warchod hawliau'r trigolion drwy'r heriau hynny.

Mae nifer o gynlluniau mawr ar y gweill gan y Cyngor fydd yn rhoi lle blaenllaw i ffyniant cymunedol a ffyniant yr iaith , ac felly wyf yn falch bod Cyngor Gwynedd yn parhau i arwain y gad, ac i edrych y tu hwnt i ddarparu dwyieithog yn unig, drwy roi anghenion y trigolion ac ymrwymiad i weithredu er lles y Gymraeg yn gyntaf.

Dwi'n falch rŵan o allu trosglwyddo'r awenau i fy nghyd-Aelod Cabinet, y Cynghorydd Menna Jones, fel yr Aelod Cabinet newydd ar gyfer y maes hwn, gan wybod y bydd y maes mewn dwylo diogel."

CRYNODEB

Trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer cyfarfodydd hybrid gyda chyfieithu ar y pryd.

Trefniadau hunanasesu adrannol newydd wedi eu sefydlu er mwyn monitro cydymffurfiaeth gyda'r Safonau. Hefyd trefniadau adrodd blynyddol i'r Pwyllgor Iaith er mwyn i adrannau adrodd ar weithgareddau hybu a hyrwyddo ehangach.

99.1% o staff y Cyngor cyfan yn meddu ar rhyw fath o **sgiliau** yn y Gymraeg.
91% o staff yn **cyrraedd dynodiad iaith eu swydd** (yn ôl asesiadau sydd wedi eu cwblhau)

909 o hysbysebion swyddi wedi eu cyhoeddi yn ystod y flwyddyn lle roedd sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol**.

Graffeg '"Designed by Freepick"

1. Cefndir - dyletswydd y Safonau

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015, a hynny o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio a nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd â chopi o Bolisi Iaith cyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi y wefan gorfforaethol:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cydraddoldeb-ac-iaith/Safonaur-Gymraeg-a-Pholisi-Iaith.aspx

2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo'r Safonau

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol â'r Safonau Iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi Iaith.

Cafodd y Polisi Iaith cyfredol ei fabwysiadu yn 2016 ac mae'n dilyn yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflwyno gwasanaethau, y dylid parchu dewis iaith unigolion, ac y dylid manteisio ar bob cyfle i hybu'r Gymraeg y tu hwnt i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ac i fod yn rhagweithiol wrth roi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

Mae ymwybyddiaeth o angen i weithredu yn unol â'r Polisi yn dda o fewn gwasanaethau'r Cyngor. Mae mwyafrif helaeth staff y Cyngor yn gallu siarad Cymraeg, a nifer fawr gyda sgiliau Cymraeg rhugl, sydd yn golygu bod defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith bellach yn arfer naturiol, a'n bod yn gallu sicrhau gwasanaeth Cymraeg yn rhagweithiol ac yn ddiofyn. Mae'r angen i ystyried y Gymraeg, a rôl y Cyngor wrth gynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn ein cymunedau, hefyd yn arfer naturiol, ac ni chaiff yr un gwasanaeth ei gynllunio a'i ddatblygu heb ystyried yr angen i'w gynnal yn ddwyieithog.

Mae'r polisi iaith wedi bod yn cael ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gyda'r amserlen wedi oedi ychydig oherwydd blaenoriaethau eraill cyfnod y pandemig) a gobeithiwn y bydd yn cael ei fabwysiadu yn fuan ym mlwyddyn 2022-23, wedi i'r Cyngor newydd gael ei sefydlu. Mae'r Polisi nid yn unig yn gosod amodau penodol i sicrhau ein bod yn ateb gofyn y Safonau, ond hefyd yn esbonio sut y bydd y Cyngor a'i staff yn mynd y tu hwnt i ofynion y Safonau ac yn rhoi y lle blaenllaw i'r Gymraeg drwy ei holl waith. Mae hyn yn cynnwys ei ymrwymiad parhaus i weithredu yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg ac i sicrhau y cynnig rhagweithiol drwy ddarparu yn Gymraeg yn gyntaf ble bynnag y bo'n bosib. Mae cymalau'r polisi sydd yn ymwneud efo cyfarfodydd, er enghraifft, yn cefnogi'r egwyddor sylfaenol y dylid cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg, gyda chyfleusterau cyfieithu i alluogi'r di-Gymraeg i gymryd rhan lawn, yn hytrach na darparu cyfieithu er mwyn sicrhau hawl y siaradwyr Cymraeg.

Mae nifer o gamau eraill wedi eu cymryd yn ystod y flwyddyn i sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys sefydlu trefn hunanasesu mewnol newydd, ac mae rhaglen ddatblygol ar waith fydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth staff o ymrwymiadau'r Cyngor, yn cychwyn gyda mabwysiadu'r Polisi Iaith diwygiedig yn ystod misoedd cyntaf y Cyngor newydd. Ceir mwy o wybodaeth am y camau datblygol hyn yn rhan nesaf yr adroddiad.

3. Adlewyrchu ar y flwyddyn – 2021-22

Fe wnaeth yr heriau a wynebodd y Cyngor yn ystod y flwyddyn 2020-21 barhau i raddau helaeth i flwyddyn 2021-22, gydag effeithiau'r pandemig yn dal i gael eu teimlo ar wasanaethau cyhoeddus, a staff ac adrannau wedi gweithio yn galed i gynnal gwasanaethau tra'n ymateb i heriau gweithio o bell a heriau staffio.

Unwaith eto, mae'r ffaith bod y Cyngor wedi gallu sicrhau'r gwasanaeth dwyieithog drwyddi draw ar gyfer y cyhoedd, yn arwydd pendant o lwyddiant y polisi iaith ac o'r modd y mae gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi ei wreiddio drwy holl waith y Cyngor.

Rydym bellach yn wynebu ffordd gwbl newydd o weithio yn y tymor canolig i hir, gyda nifer o staff wedi dewis parhau i weithio o adref, ac eraill yn dychwelyd i'r swyddfeydd. Mae hyn yn creu sefyllfa newydd i ni ymateb iddi, ac rydym o ganlyniad wedi cael cyfle i edrych eto ar ein trefniadau monitro, a sut rydym yn hysbysu ac atgoffa staff o'u hymrwymiadau o ran y Gymraeg.

Mae'r drefn hunanasesu newydd gan y Comisiynydd hefyd wedi'n galluogi i gymryd cam yn ôl ac edrych ar rai o'n prosesau. Mae nifer o gynlluniau ar waith o ganlyniad.

3.1 Camau gweithredu i gryfhau cydymffurfiaeth

- **Cyfieithu ar y pryd a chyfarfodydd hybrid** (Safonau 23 – 33)

Adroddwyd 'llynedd ar y gwaith allweddol o sicrhau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd rhithiol, a llwyddiant y Cyngor i gynnal cyfarfodydd pwyllgorau'r cyngor yn gyfan gwbl ddwyieithog trwy gydol y cyfnod clo. Adroddwyd hefyd ar yr her a wynebwyd gydag ambell sefydliad cyhoeddus arall nad oedd yn caniatáu'r defnydd o Zoom. Roedd hyn yn golygu fod y Cyngor wedi gorfod trefnu a darparu cyfieithu ar y pryd ar ran eraill ac mewn rhai achosion bod hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd wedi ei effeithio gan nad oedd gwasanaeth cyfieithu ar gael i'r di-Gymraeg. Mae'r heriau hyn wedi parhau yn ystod 2021-22, ond mae'r Cyngor ei hun wedi llwyddo i sicrhau cyfieithu ar y pryd lle'r oedd angen mewn unrhyw gyfarfodydd a drefnwyd ganddynt gyda'r cyhoedd, a hefyd wedi llwyddo i we-ddarlledu nifer o'i gyfarfodydd yn fyw yn y ddwy iaith.

Arweiniodd y rhwystrau gyda chyfarfodydd allanol at alwad gan Bwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd ar i Lywodraeth Cymru arwain drwy esiampl, ac i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gynnig cyfarfodydd lle mae modd cymryd rhan yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ddiofyn, yn arbennig gan fod y dechnoleg yn caniatáu hynny mor rhwydd. Rhoddwyd pwysau hefyd i gael y cyfleuster cyfieithu i weithio ar gyfer y Gymraeg a Saesneg o fewn Microsoft Teams.

Cyflwynwyd her ychwanegol yn ystod 2021-22, a hynny o ganlyniad i'r newidiadau tymor hirach yn ein ffyrdd o weithio. Gwelwyd bod angen datblygu'r gallu i gynnal cyfarfodydd aml leoliad, gyda chyfleuster cyfieithu ar y pryd, fyddai yn sicrhau bod unigolion sy'n mynychu cyfarfodydd yn y Siambr neu yn ymuno o bell dros y we yn gallu cymryd rhan yn hwylus, ac yn gallu cael mynediad at wasanaeth cyfieithu ar y pryd lle bo'r angen.

Bu'n her a gymerodd hwy o amser na'r disgwyl i'w datrys yn sgil yr angen i barhau gyda mesurau covid a gweithio o gartref am amser estynedig, yn ogystal â chyd-weithio gyda chwmni cenedlaethol sy'n ceisio darparu gwasanaeth hybrid (heb gyfieithu!) i nifer fawr o awdurdodau a busnesau ar draws y byd. Trwy ymroddiad swyddogion o'r gwasanaeth Democratiaeth, Iaith a chyfieithu, mae trefniadau wedi eu sefydlu ar gyfer y brif siambr gyfarfod yn y pencadlys, yng Nghaernarfon, sy'n caniatáu mynediad rhwydd o bell ac a fydd yn sicrhau bod modd i'r cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal yn Gymraeg gyda chymorth cyfieithu. Mae gwaith pellach yn parhau i fireinio'r gwasanaeth, gan edrych ar ddarparu cyfieithu ar y pryd o wahanol ystafelloedd neu gan ddefnyddio cyfarpar symudol fel y cam nesaf.

- **Asesu Effaith** (Safonau 88-93)

Mae gwaith yn parhau i fireinio a gwella trefniadau asesu effaith y Cyngor ar draws y meysydd lle mae cyfrifoldebau statudol i asesu effaith. Adroddwyd yn flaenorol bod asesiad integredig yn cael ei ddatblygu yn rhanbarthol ar gyfer cydraddoldeb, iaith a'r ddyletswydd economaidd gymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu asesiad digidol ar sail yr asesiad integredig hwn, a hefyd yn sefydlu trefn newydd o gyflwyno gydag eitemau i'r Cabinet.

Mae'r Gymraeg yn rhan greiddiol o flaenoriaethau a darpariaeth gwasanaethau yn y Cyngor. Ni wneir unrhyw benderfyniad ar newidiadau i wasanaethau, neu wrth ddatblygu cynlluniau strategol, heb fod y Gymraeg a darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r cynlluniau hynny.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr asesiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet, ac sydd yn cael eu paratoi ar gyfer cynlluniau a phrosiectau, ond rydym yn dal i weld lle i wella, a byddwn yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth o'r angen i gynnal asesiadau amserol a phriodol dros y flwyddyn nesaf.

- **Polisi dyfarnu grantiau** (Safon 94)

Buom yn adolygu canllawiau'r Cyngor ar gyfer dyfarnu grantiau yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r Cyngor yn dyrannu llawer o grantiau uniongyrchol erbyn hyn (mae'n fwy tebygol o ddyrannu arian ar ran cyrff eraill megis Llywodraeth Cymru, gan ddilyn yr amodau a osodir gan yr arianwyr hynny), ond gwelwyd bod angen gosod canllawiau cyffredinol, cliriach, i staff ar y materion ieithyddol y mae angen eu hystyried wrth ddyrannu cymorth ariannol. Mae dogfen bolisi wedi ei ddrafftio, felly, ac ymgynghori mewnol wedi bod ar ei gynnwys a'i weithrediad. Bydd y ddogfen hon yn cael ei rannu yn swyddogol gyda staff a'r cyhoedd fel atodiad i'r Polisi Iaith diwygiedig yn ystod 2022.

- **Ymwybyddiaeth Iaith** (Safonau 132, 133)

Mae e-fodiwl ymwybyddiaeth iaith ar gael i bob aelod o staff ac yn rhan o'r modiwlau hyfforddiant craidd ar y mewnrwyd. Bydd pob aelod o staff newydd yn cael eu cyfeirio at y modiwlau craidd yma fel rhan o drefniadau sefydlu ac anwytho. Nid oeddem wedi cynnal sesiynau ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb ers cyn y cyfnod clo, ac oherwydd y newidiadau mewn patrymau gweithio gwelwyd bod angen addasu modiwlau hyfforddiant i allu darparu ar-lein, drwy Microsoft Teams neu Zoom.

Bu swyddogion yr Uned Iaith a Chraffu a'r Tîm Dysgu a Datblygu yn cydweithio yn ystod y flwyddyn felly i addasu'r hyfforddiant wyneb yn wyneb i un ar-lein, gan dreialu'r hyfforddiant newydd gyda staff y gwasanaeth Olrhain a Phrofi. Bydd yr hyfforddiant wyneb yn wyneb yma yn cael ei dargedu a'i deilwra i wasanaethau penodol, a bydd yr e-fodiwl yn parhau i gael ei hyrwyddo fel rhan o'r hyfforddiant craidd.

Bu'r Uned Iaith a Chraffu a'r Tîm Dysgu a Datblygu hefyd yn cyfrannu at waith cenedlaethol yn ystod y flwyddyn i ddatblygu modiwl ymwybyddiaeth iaith ar gyfer aelodau etholedig.

- **Gweithdrefn Gwyno** (Safonau 156, 162, 168)

Byddwn yn delio gydag unrhyw gwynion iaith yn dilyn y weithdrefn gwynion gorfforaethol. Fel rheol, yr Ymgynghorwyr Iaith fydd yn delio gydag unrhyw gwynion sydd yn ymwneud efo cydymffurfiaeth efo'r Safonau a'r Polisi Iaith, er mwyn sicrhau cysondeb a monitro effeithiol, ond gall y cwynion gael eu derbyn gan adrannau unigol, gan y swyddog cwynion corfforaethol, neu gan yr Uned Iaith a Chraffu ei hun. Er mwyn sicrhau bod y trefniadau yn glir i'r cyhoedd, a'r gofynion ac atebolrwydd yn eglur i staff, mae dogfen newydd wedi ei chreu a'i rhannu sydd yn manylu ar y drefn ar gyfer cyflwyno cwynion iaith yn benodol, a sut mae'n plethu gyda'r weithdrefn gorfforaethol. Mae'r ddogfen wedi ei chreu a bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor yn fuan yn 2022.

- **Trefn Hunanasesu**

Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd trefn hunanasesu newydd i adrannau'r Cyngor er mwyn gwella perchnogaeth ac ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau. Bydd yr adrannau yn gorfod cyflwyno asesiadau blynyddol i'r Uned Iaith a Chraffu, er mwyn eu cynorthwyo hwythau i adnabod bylchau, i ddatblygu rhaglen ymyraethau, ac er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r galw am hunanasesiad corfforaethol gan Gomisiynydd y Gymraeg.

- **Mewnrwyd staff ac aelodau etholedig**

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd tudalennau penodol ar fewnrwyd y Cyngor – un ar gyfer staff mewnol ac un ar gyfer aelodau etholedig – fydd yn cynnwys gwybodaeth am bopeth cysylltiedig efo'r maes iaith. Bydd yn gweithredu fel un man canolog lle bydd posib i staff ac aelodau etholedig ganfod gwybodaeth am y Polisi Iaith, y Safonau, strategaeth iaith y Cyngor a chael canllawiau a thempledi ymarferol i'w defnyddio yn eu gwaith. Rydym yn gobeithio y bydd y ffynhonnell wybodaeth yma yn codi ymwybyddiaeth ac yn cryfhau cydymffurfiaeth gyda rhai safonau drwy sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau yn hygyrch ac ar gael i bawb. Bydd y dudalen ar y mewnrwyd staff hefyd yn cysylltu gyda'r dudalen cydraddoldeb, a'r dudalen dysgu a datblygu iaith, sydd yn cynnwys gwybodaeth bellach yn ymwneud efo trefniadau asesu effaith a'r gefnogaeth eang sydd yna i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu.

- **Tudalen Iaith y wefan gyhoeddus**

Mae tudalen bwrpasol hefyd wedi cael ei chreu ar gyfer y wefan gyhoeddus, sydd yn dod a gwahanol elfennau a ffynonellau gwybodaeth yn ymwneud efo'r iaith at ei gilydd mewn un lle. Yr Iaith Gymraeg (llyw.cymru). Gobeithiwn y bydd y dudalen hon yn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ddod o hyd i wybodaeth am flaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Cyngor o safbwynt hybu a hyrwyddo'r Gymraeg, ac y bydd yn datblygu yn ffynhonnell wybodaeth ac adnoddau iddynt ar sut i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.

- **Ymateb i ohebiaeth dorfol** (Safon 4)

Mae gwaith wedi cychwyn ar wirio systemau TG sydd yn anfon gohebiaeth dorfol i'r cyhoedd er mwyn sicrhau eu bod, ymysg materion eraill, yn cydymffurfio gyda'r gofyn yn Safon 4. Mae nifer o drafodaethau wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn i ddeall yn union beth yw rhai o'r rhwystrau gyda systemau TG, a lle y bydd angen gwneud newidiadau i sicrhau cydymffurfiaeth. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2022.

- **Datganiadau ar ddogfennau** (Safonau 7, 49, 50A)

Yn dilyn cyfarfod monitro'r Comisiynydd aed ati i lunio nifer o dempledi i staff eu defnyddio ar ddogfennau, llythyrau ac e-byst, er mwyn cydymffurfio gyda gofynion safonau 7, 49, 50A. Mae'r datganiadau wedi eu rhannu dros e-bost, a byddant ar gael ar y mewnrwyd i unrhyw un gael gafael arnynt yn rhwydd. Bydd nodiadau atgoffa yn cael eu rhannu yn rheolaidd hefyd er mwyn cynyddu nifer y staff sydd yn eu defnyddio.

- **Defnydd y cyhoedd o wasanaethau** (hybu gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, safon 81)

Er mwyn ceisio cynyddu defnydd o wasanaethau drwy'r Gymraeg rydym yn cydweithio ar brosiect Gwasanaethau Cyswllt Cyntaf gydag ein partneriaid eraill yn y sector gyhoeddus drwy Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Pwrpas y prosiect yw annog pobl Gwynedd i siarad Cymraeg wrth ddod i dderbynfeydd (y Cyngor a phartneriaid). Comisiynwyd cwmni i wneud astudiaeth o ddewis iaith y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau mewn 12 derbynfa draddodiadol yng Ngwynedd a Môn ac i ymchwilio i ymyraethau posib er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2022.

3.4 Heriau wrth symud ymlaen

Mae cyfuniad o ffactorau wedi gwneud y flwyddyn ddiwethaf yma yn un heriol unwaith eto. Mae addasu i drefniadau gwaith newydd yn benodol yn cyflwyno nifer o heriau wrth symud ymlaen. Rhoddir yma grynodeb o rai o'r materion fydd yn cael sylw gennym yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn cryfhau cydymffurfiaeth a gwella ymrwymiad y Cyngor i hybu'r Gymraeg.

- **Asesu effaith cynlluniau strategol mawr**

Mae nifer o gynlluniau strategol mawr wrthi'n cael eu rhoi ar waith gan y Cyngor ar hyn o bryd sydd yn cyfrannu mewn sawl ffordd at gynhaliaeth y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau ym maes Tai, Adfywio Cymunedol a Thwristiaeth. Bydd yn allweddol bod asesiadau effaith priodol yn cael eu cynnal o'r cynlluniau yma wrth iddynt gael eu datblygu, ond hefyd ein bod yn datblygu mesurau a dangosyddion fydd yn ein galluogi fel Cyngor i fonitro effaith a dylanwad y cynlluniau hyn wrth iddynt gael eu gweithredu, yn unigol ac ar y cyd.

Bydd ystyried sut i ymgorffori'r cynlluniau yma i'r strategaeth iaith newydd yn flaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf.

- **Systemau TG**

Mae'r symud cynyddol i ddarparu mwy o wasanaethau ar-lein yn golygu heriau o hyd, yn enwedig pan fydd angen prynu systemau pwrpasol i mewn. Rydym wedi adrodd ar yr heriau hyn sawl tro i'r Comisiynydd, ac rydym yn parhau i weithio i geisio sicrhau'r darpariaethau gorau, sydd yn ateb gofyn y cyhoedd ac yn cyrraedd y safonau a gofynion Polisi'r Cyngor. Rydym hefyd wedi dechrau ar broses o adolygu systemau hŷn sydd gan y Cyngor, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw bob amser, a bod newidiadau yn cael eu gwneud i wella'r cynnig rhagweithiol wrth i systemau gael eu hadnewyddu neu ail-gomisiynu.

- **Magu sgiliau a hyder staff**

Un o'r heriau sydd yn ein hwynebu yw sut mae'r Cyngor yn mynd i allu sicrhau cyfleoedd effeithiol i ddysgu ac ymarfer sgiliau Cymraeg wrth i'r model gweithio newid yn y tymor hir? Wrth i'r prosiect Dynodiadau symud i'r cam nesaf, sef cynyddu nifer y staff sydd yn cwblhau'r hunanasesiad, a chefnogi a monitro cynnydd dysgwyr neu staff nad ydynt eto yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi, bydd ein sylw ninnau yn symud o'r asesu i gynnig cefnogaeth briodol i fagu hyder a datblygu sgiliau.

Wrth i sefyllfa'r pandemig wella, a'r pwysau gwaith ar ein staff leihau yn raddol, bydd angen rhoi sylw i sgiliau iaith staff y gwasanaethau hyn. Mae'r ffaith fod amrywiaeth o gyrsiau a dulliau dysgu ar gael bellach yn fudd mawr wrth geisio cyfarch yr her hon, yn ogystal â'r gallu i gomisiynu cyrsiau arbennig. Mae'r cyrsiau sydd wedi'u trefnu dros y ddwy flynedd diwethaf wedi cynnig cyfleoedd

gwerthfawr inni asesu'r hyn sy'n gweithio i wahanol garfannau o staff. Gobeithiwn fanteisio ar y wybodaeth hon er mwyn parhau i drefnu cyrsiau addas ac effeithiol i staff yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn edrych ar ddatblygu ein cynlluniau pencampwyr a chyfeillion Cymraeg, er mwyn sicrhau bod cefnogaeth anffurfiol ar gael i staff o fewn yr adrannau i gynyddu eu defnydd a datblygu eu hyder. Gyda nifer o staff yn dal i weithio o gartref, mae'r diffyg cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg a gafodd ei adnabod yn ystod y cyfnod clo, yn dal i fodoli i ryw raddau, ac rydym yn ymwybodol bod angen edrych ar ddatblygu cyfleoedd newydd, sydd yn ffitio o fewn y model gweithio hybrid newydd.

Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gallwn gefnogi Rheolwyr gyda materion megis cynnal iaith cyfarfodydd mewnol a chefnogi staff newydd di-Gymraeg i gymryd rhan lawn mewn cyfarfodydd ac i ddatblygu eu dealltwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys datblygu canllawiau ar gynnal cyfarfodydd dwyieithog yn effeithiol.

- **Recriwtio**

Cychwynnwyd trefn newydd yn ystod y flwyddyn lle mae pob adran o fewn y Cyngor yn cymryd eu tro i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Iaith ar weithrediad y Safonau a'u hymdrechion i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Adroddodd sawl adran am bryderon recriwtio, a'r ffaith ei bod yn mynd yn anoddach recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi. Mae hyn yn amlwg yn bryder o safbwynt y Safonau, gan fod diffyg staff gyda'r sgiliau iaith priodol yn risg i'n gallu i ddarparu'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn ddiofyn. Roedd rhai meysydd gwaith disgwyliedig yn y rhai y tynnwyd sylw atynt, megis y gweithlu gofal, ond tynnwyd sylw hefyd at fylchau mewn meysydd mwy arbenigol - peirianwyr, swyddogion amgylcheddol ac ati - a bydd angen i ni sicrhau bod y mater hwn yn cael sylw yn ystod y flwyddyn fel rhan o gynlluniau datblygu gweithlu'r Cyngor.

4. ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170

4.1 Safon 151: Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

Rydym yn parhau i ddefnyddio ein System Sgiliau Iaith newydd i gasglu ein data, sy'n rhoi gwell dadansoddiad i ni o'r sgiliau sydd gan ein gweithwyr. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y system yn ateb dau brif gwestiwn:

	Cwestiwn	**Ateb**
1	A yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion ei swydd?	Ydi / Nac ydi
2	Beth yw lefel iaith yr aelod o staff ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu?	Dim Sgiliau, Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 1** mewn dwy ffordd:

- **gan Reolwyr Llinell**: yn ystod cyfarfodydd gyda rheolwyr ar draws y Cyngor, gofynnwn iddynt nodi, yn eu barn nhw, a yw eu staff yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi ai peidio.
- **trwy hunanasesiadau staff**: mae staff yn cwblhau holiadur sydd, ar sail eu hymatebion i'r cwestiynau, yn cyfrifo eu lefel ar gyfer Gwrando a Siarad, Darllen a Deall, ac Ysgrifennu. Mae'r lefelau hynny'n cael eu cymharu gyda Dynodiadau Iaith y swydd, a chyfrifir ar sail hynny a yw'r aelod o staff yn cyrraedd gofynion eu swydd ai peidio.

Cesglir yr wybodaeth ar gyfer **cwestiwn 2** trwy hunanasesiadau staff.

Mae gwaith o gasglu'r asesiadau yn waith parhaus, ac felly rydym yn adrodd ar nifer y staff sydd wedi'u hasesu yn unig. Bydd y nifer hwn felly yn cynyddu a newid wrth i ni barhau gyda'r gwaith dros y flwyddyn nesaf.

Wrth inni gasglu mwy a mwy o asesiadau, mae gallu'r system i roi gwybodaeth o werth inni yn cynyddu, a gallwn bellach ddechrau adnabod patrymau trwy ddadansoddi'r ymatebion i'r hunanasesiad iaith. Er enghraifft, pe gwelir bod nifer o staff un gwasanaeth yn gofyn am gyrsiau gloywi iaith, gellir ymateb yn rhagweithiol i hynny.

Mae'r wybodaeth i gyd yn cael ei gasglu yn awtomatig ar y System Sgiliau Iaith, ac yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau byw ar unrhyw adeg. Mae elfen gofnodi data'r system yn ei lle ac yn weithredol, ond rydym yn parhau i ddatblygu adroddiadau fydd yn cynhyrchu'r data mwyaf defnyddiol.

NODER:

- Mae **pob un swydd** yn y Cyngor wedi'i gwirio i sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer y swydd ac yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.
- Mae **pob un swydd newydd** yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.

- Mae **pob swydd** yn cynnwys gofynion iaith ***hanfodol***, h.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd yn y Cyngor.
- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac ni fydd y ffigyrau a nodir byth yn adlewyrchu yn union nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun cywiraf posib o sgiliau'r gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.
- Nid ydym yn adrodd ar staff sydd yn aelodau o'r adrannau canlynol (er yn gyflogedig gan y Cyngor) - **GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** - gan eu bod yn gydbwyllgorau ac felly nad ydynt atebol i ofynion y Safonau. Nid ydym yn cynnwys staff ysgolion yn ein data chwaith, gan eu bod yn cael eu penodi yn uniongyrchol gan yr ysgolion na staff y canolfannau hamdden gan eu bod yn dod o dan y cwmni hyd braich, Byw'n Iach. Mae'r ddau wasanaeth yma serch hynny yn cymryd rhan yn y prosiect, ac yn cynnal hunanasesiad. Mae gofyn i asesu a monitro sgiliau yn rhan o ymrwymiad cytundebol Byw'n Iach gyda'r Cyngor.

Adroddiad Sgiliau:

Mae'r wybodaeth isod yn gywir ar amser llunio'r adroddiad ac wedi ei dynnu o'n System Sgiliau Iaith.

Trosolwg o'r sefyllfa:

Nifer yr aelodau staff (sydd ar gyflogres y Cyngor)*	**3822**	
Cyfanswm yr asesiadau a gasglwyd (Asesiadau Rheolwyr Llinell a Hunanasesiadau)	**2825**	74%
Nifer yr Hunanasesiadau a gasglwyd yn unig (Cwestiwn 2)*	**2633**	69%

***nid yw'n cynnwys staff GwE, Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, na Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru na staff ysgolion Gwynedd

Staff a'r Dynodiadau Iaith:

Staff sy'n cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	**2584**	91%
Staff nad ydynt yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swydd	**241**	9%

Trosolwg o lefelau Iaith y staff:

Staff sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg (o unrhyw fath)	**2799**	99.1%
Staff heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg	**26**	0.9%

Lefelau Iaith y staff fesul adran:

Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu yn ôl yr hyn sydd wedi'i asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu yn meddu ar sgiliau Uwch neu Hyfedredd.

*Er hwylustod, talfyrrwyd enwau'r adrannau yn y graff isod. Gellir gweld eu henwau'n llawn ar y dudalen nesaf



	Addysg (heb gynnwys ysgolion)	Amgylchedd	Cyllid	Cefnogaeth Gorfforaethol	Economi a Chymuned	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Tai ac Eiddo	Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)	Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol
Hyfedredd	199	84	124	130	95	309	186	90	65	54	17
Uwch	153	38	56	38	44	194	65	86	42	45	9
Canolradd	61	7	7	4	9	78	8	34	11	3	0
Sylfaen	40	2	2	0	4	44	8	7	2	5	0
Mynediad	49	4	0	0	0	79	11	8	4	3	0
Dim sgiliau	6	0	0	0	0	8	0	0	0	0	0

Lefelau Iaith swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi eu dynodi fesul lefel:

Mae gofynion lefelau un swydd yn gallu amrywio o un sgil i'r llall, h.y. gall gofynion lefel Siarad a Gwrando fod yn uwch na'r gofynion lefel Ysgrifenedig. O ganlyniad i hyn, rydym yn cyfrif y lefel Siarad a Gwrando fel 'prif lefel' ar gyfer pwrpas adrodd lefelau swydd gan mai honno yw'r lefel uchaf fel rheol.



Rydym yn gallu edrych ar y dadansoddiad hwn ar lefel adrannol hefyd, gan ein galluogi i weld lle mae'r swyddi lle mae lefelau is wedi eu nodi. Mae nifer o swyddi yr adran Priffyrdd, er enghraifft, yn rhai lle nad oes angen sgiliau uwch yn y Gymraeg oherwydd bod llai o gyswllt uniongyrchol a wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd. Byddwn yn gallu cymryd sampl o'r swyddi hyn ar unrhyw adeg a chynnal gwiriad o ddynodiad y swydd.

5.2 Safon 152: Adrodd ar nifer staff fynychodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o - (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a (b) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.

Safon 128: Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg -

(a) recriwtio a chyf-weld;
(b) rheoli perfformiad;
(c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
(ch) ymsefydlu;
(d) delio â'r cyhoedd; ac
(dd) iechyd a diogelwch.

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg. Darperir fersiwn Gymraeg a Saesneg o rai cyrsiau ar wahân lle mae galw am hynny, ond fel rheol ceisiwn sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.
Bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol.

Hyfforddiant Cyffredinol

Nodir y wybodaeth isod ar gyfer POB ADRAN o fewn y Cyngor heblaw BYW'N IACH, Cefnffyrdd, GWE, *Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru, Cynghorwyr.* Rhoi'r wybodaeth am hyfforddiant a ddarperir yn ganolog ar gyfer y gwasanaeth Byw'n Iach ar wahân isod.

Nifer digwyddiadau unigol - **972**
Nifer y teitlau – cyrsiau unigol lefel Swydd/Sefydliad – **180**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	524	1612
Saesneg	402	1032
Dwyieithog	46	159

Y newid ers 2019:

	NIFER DIGWYDDIADAU			MYNYCHWYR UNIGRYW		
	2019-20	2020-21	2021-22	2019-20	2020-21	2021-22
Cymraeg	463	289	524	1805	1044	1612
Saesneg	225	305	402	1021	796	1032
Dwyieithog	222	92	46	765	453	159

O gymharu'r ffigyrau yma efo'r hyn a adroddwyd yn ystod 2020-21 gwelir bod nifer sylweddol yn fwy o hyfforddiant wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn, a bod nifer yn fwy o sesiynau Cymraeg wedi eu cynnal. Mae'r niferoedd hyn wedi dychwelyd yn ôl yn debycach i'r ffigyrau a nodwyd yn adroddiad 2019-20. Mae nifer y mynychwyr (aelodau staff) sydd wedi dewis cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn hefyd wedi cynyddu, ond nid yw cystal â'r ffigwr a nodwyd ar gyfer 2019-20. Byddwn yn trafod y ffigyrau yma gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad, er mwyn gweld pa anogaeth y gellir ei roi i staff i fynychu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a sut y gellir manteisio ar y newid i gynnal sesiynau ar-lein i gynnal mwy o sesiynau yn Gymraeg gyda chyfleuster cyfieithu, a lleihau nifer y sesiynau sy'n cael eu cynnig yn uniaith Saesneg.

Safon 128-
68 UNIGOLYN WEDI MYNYCHU'R GWEITHDY CROESO YN Y CYFNOD 01.04.21 – 31.03.22 (9 digwyddiad wedi ei gynnal - 1 o'r rhain yn benodol i staff Cefnffyrdd)
105 wedi ei gael yn Gymraeg (91%)
11 wedi ei gael yn Saesneg (9%)

<u>Hyfforddiant a ddarparwyd gan y Cyngor ar gyfer y Gwasanaeth BYW'N IACH gan y gwasanaeth dysgu a datblygu canolog:</u>
Nifer digwyddiadau unigol rhwng 01.04.21 a 31.03.22 – **39**

Nifer y teitlau rhwng 01.04.21-31.03.22 - **11**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	MYNYCHWYR UNIGRYW
Cymraeg	21	29
Saesneg	15	40
Dwyieithog	3	3

5.3 Safon 154: Adrodd ar gategoreiddio swyddi

Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn

(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;
(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	909
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	**0**
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	**0**
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	**0**

Mae pob swydd a hysbysebir gan y Cyngor yn cynnwys gallu yn y Gymraeg fel sgil **hanfodol**.

Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu gyda datganiad sydd yn nodi mai'r Gymraeg yw iaith weithredol y Cyngor, a bod angen i ymgeiswyr feddu ar y sgiliau iaith sydd wedi eu nodi yn y swydd ddisgrifiad (h.y. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol). Mae union lefel y sgiliau llafar, ysgrifenedig a darllen a deall sydd eu hangen yn cael eu nodi o fewn Manylion Person y swydd.

Os na fydd modd penodi unigolyn gyda'r sgiliau cywir ar yr hysbysiad cyntaf, bydd modd i reolwyr wneud cais i addasu geiriad y datganiad i annog ymgeiswyr newydd ac i ganiatáu penodi rhywun sydd ddim eto yn cyrraedd y gofynion ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu. Bydd posib cynnwys cymal o fewn cytundeb i nodi'r ymrwymiad a bydd rhaglen hyfforddiant yn cael ei chytuno ar y cyd gyda'r rheolwr a'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. **Ni fydd** dynodiad iaith y swydd yn cael ei newid, felly mae'r gofyniad uchod bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer pob swydd yn parhau.

Mae system swyddi newydd wedi cael ei datblygu a'i lansio tuag at ddiwedd y flwyddyn, ac mae swyddogion yr Uned Iaith a Chraffu, a swyddogion y Tîm Dysgu a Datblygu (sydd yn gyfrifol am brosiect y dynodiadau iaith), wedi bod yn cydweithio gyda'r swyddogion prosiect i sicrhau bod cwestiynau penodol yn cael eu hadeiladu i mewn i'r system er mwyn ein galluogi i ddadansoddi gwybodaeth fanylach am ystyriaethau ieithyddol o fewn y broses recriwtio yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am faint o swyddi sydd yn cael eu hysbysebu ar y gwahanol lefelau ieithyddol.

5.4 Adrodd ar gwynion iaith

Nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Yn unol â threfniadau atebolrwydd ac adrodd mewnol y Cyngor, caiff unrhyw gwynion neu ymholiadau am wasanaethau sydd yn cael eu derbyn mewn perthynas â'r Safonau neu Bolisi Iaith y Cyngor eu cofnodi gan yr Uned Iaith a Chraffu, a'u hadrodd i Bwyllgor Iaith y Cyngor. Darparwyd adroddiad llawn ar gwynion y flwyddyn Mawrth 2021 i Fawrth 2022 i gyfarfod mis Ebrill 2022 y Pwyllgor Iaith.

Nifer ymholiadau cyn ymchwilio neu gamau gweithredu gan y Comisiynydd: 3

- **Hyfforddiant swyddogion etholiad:**

Derbyniwyd ymholiad gan y Comisiynydd am hyfforddiant i swyddogion gorsafoedd pleidleisio. Roeddynt wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd am ddiffyg hyfforddiant Cymraeg. Bu posib cadarnhau nad oedd yr hyfforddiant yn rhan o gyfrifoldeb y Cyngor. Mae'r hyfforddiant yn dod o dan swyddogaeth y Swyddog Canlyniadau, ac felly ddim yn dod o dan ofynion y Safonau. Derbyniwyd yr ymateb hwn a bod rôl y Swyddog Canlyniadau yn annibynnol o'r Cyngor ac felly ni arweiniodd at ymchwiliad.

- **Hunanwasanaeth Llyfrgelloedd:**

Derbyniwyd ymholiad ym mis Chwefror 2022 am ddefnydd y gwasanaeth Llyfrgelloedd o lungopiwyr ac argraffwyr. Roedd swyddfa'r Comisiynydd yn awyddus i wybod sut roedd y peiriannau hyn yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd ac a oedd y feddalwedd arnynt ar gael yn Gymraeg. Anfonwyd ymateb yn cadarnhau bod y llungopiwyr ar gael at ddefnydd y cyhoedd, ond nad oeddynt yn gweithredu fel hunanwasanaeth, a bod rhaid cael aelod o staff i'w defnyddio. Nid ydynt felly yn dod o dan ofynion peiriannau hunanwasanaeth y Safonau.

- **Monitro Cydymffurfiaeth**

Cafwyd cyfarfod monitro gyda swyddog cyswllt y Comisiynydd ym mis Ionawr 2022. Roedd hyn yn dilyn cwblhau ymarfer hunanasesu corfforaethol yn ystod haf 2021. Mae'r Cyngor wedi cael nifer o gamau gweithredu yn dilyn y cyfarfod, er mwyn gwella cydymffurfiaeth gyda'r Safonau. Mae'r Uned Iaith hefyd wedi cychwyn proses hunanasesu newydd o fewn y Cyngor, gyda hunanasesiad adrannol wedi ei rhannu gyda phob pennaeth er mwyn bwydo mewn i'n hunanasesiad corfforaethol nesaf ni yn yr haf. Bydd yr hunanasesiadau yma yn ein galluogi i adnabod bylchau a meysydd gwella yn fwy effeithiol.

Ymchwiliadau a gwblhawyd gan Gomisiynydd y Gymraeg : 1

1. **Ymchwiliad CS018 – Hysbyseb Swydd Prif Weithredwr**

Dyfarnwyd bod y Cyngor wedi methu a chydymffurfio gyda Safonau 136A ac 137 wrth hysbysebu swydd.

Roedd yr ymchwiliad yn ymwneud efo hysbyseb swydd y Prif Weithredwr, a'r ffaith nad oedd y Cyngor wedi cynnwys manylion am ofynion iaith yn yr hysbyseb nac wedi gwahodd ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg.

Mae gofynion y Safonau yn golygu bod yn rhaid nodi ym mhob hysbyseb swydd os yw gofynion iaith yn hanfodol, dymunol neu fod gofyn i rywun ddysgu ar ôl eu penodi.

Mae egwyddor eisoes wedi ei osod o fewn Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio'r Cyngor bod sgiliau yn y Gymraeg yn ofyn hanfodol ar gyfer pob swydd, ac mae gwaith eang wedi ei wneud drwy'r prosiect Dynodiadau Iaith i sicrhau bod yr union lefel o sgiliau iaith yn cael eu nodi yn y ddogfen Manylion Person.

Roedd yr hysbyseb benodol hon, fodd bynnag, wedi dilyn trefn ychydig yn wahanol i'r arfer, ac nid oedd yn cynnwys dogfennau Disgrifiad Swydd a Manylion Person fel hysbysebion swyddi arferol. Roedd dynodiad iaith wedi ei gofnodi ar gyfer y swydd yn y system swyddi, ond nid oedd wedi ei gynnwys yn yr hysbyseb. Hefyd, roedd pecyn gwybodaeth wedi ei rannu gydag ymgeiswyr posib yn sôn am ddiwylliant ac egwyddorion gweithredu'r Cyngor, ond nid oedd geiriad penodol yn nodi bod angen sgiliau yn y Gymraeg. Credwyd yn gryf bod y cyfeiriad at ddiwylliant y Cyngor a'r sir yn gwneud yr angen i fod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn amlwg.

Roedd y dyfarniad terfynol yn cydnabod bod y swydd hon wedi ei hysbysebu mewn ffordd wahanol i'r arfer, ac nad oedd yr un achlysur hwn yn adlewyrchu trefniadau arferol y Cyngor. Gofynnwyd serch hynny i'r Cyngor wneud newidiadau i'r Polisi Recriwtio i nodi y bydd unrhyw swyddi sydd yn cael eu hysbysebu mewn dulliau gwahanol yn ateb yr un gofynion ac yn sicrhau bod y gofynion iaith a'r gwahoddiad i gyflwyno ceisiadau yn Gymraeg i'w gweld yn glir.

CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Adroddwyd yn llawn ar y cwynion hyn i Bwyllgor Iaith y Cyngor fel rhan o drefniadau atebolrwydd.

Adran	Nifer y Cwynion	Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o
Cyllid	**1**	Llythyr treth Cyngor yn defnyddio cyfeiriad Saesneg
Economi	**1**	Diffyg defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	**1**	Pamffled uniaith Saesneg wedi ei dderbyn gan y cyhoedd